

EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD A'R FRO 2019

Rhif 93 – Côr Cerdd Dant Bl 13 ac iau (dim mwy na 20 mewn nifer)
geiriau – Beth Wna'r Heniaith - Aled Lloyd Davies



Cainc: Erwenni – Einir Wyn Jones (112)
Ceinciau Penyberth – Urdd Gobaith Cymru

Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod

BETH WNA'R HENIAITH

Daeth gobaith 'nôl i'r cymoedd, -
Yn ôl i wlad y glo;
I lannau Taf a Rhymni
Fe ddaeth yr alwad, do.
Fe ddaeth yn ôl i'r Rhondda,
Mae'i hacen ar ein clyw;
Ym Margoed a Chaerffili
Mae'r heniaith eto'n fyw!

Mae'r iaith yn cael ei harddel
Yn ein prifddinas ni,
Rhieni sy'n ymuno
I roi i hon ei bri.
Caiff y Gymraeg ei harddel
Ar ôl blynyddoedd maith,
Cenhedlaeth nawr sy'n codi
I fynnu cadw'r iaith.

Pwy ddwedodd fod yr heniaith
Am farw yn ein gwlad?
Fe ddaeth adfywiad bellach
A gobaith am iachad.
Mae'r iaith yn cael ei harddel,
Deffrôdd o'i thrwmgwsg hir
Ac ni fydd byth yn marw –
Bydd heniaith yn ein tir !